Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Pentreuchaf
# Pentreuchaf
# Pwllheli
# Gwynedd
# LL53 8DZ

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/07/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Pentreuchaf wedi'i leoli yn Ysgol Pentreuchaf, ger Pwllheli, yn awdurdod lleol Gwynedd.

Mae'r cylch chwarae wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 15 o blant fesul sesiwn. Mae'n agor am bum bore bob wythnos. Caiff plant eu derbyn yn ddwy a hanner oed. Mae 15 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd, yn amrywio o ddwy a hanner i bedair oed. Mae saith o blant tair oed yn cael cyllid gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd, er nad oedd pob un ohonynt yn bresennol yn ystod yr arolygiad.

Cymraeg yw iaith y lleoliad ac mae bron pob un o'r plant yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu.

Mae tri aelod parhaol o staff, gan gynnwys arweinydd y cylch chwarae. Mae gan yr holl ymarferwyr gymwysterau a phrofiad addas mewn gweithio gyda phlant ifanc. Mae arweinydd y cylch chwarae wedi bod yn ei swydd er 2012.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Nhachwedd 2012 a chan Estyn yn Ebrill 2008.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae bron pob un o'r plant yn mwynhau eu dysgu, ac maent yn awyddus i siarad am yr hyn y maent yn ei wneud;
- mae ymarferwyr yn creu amgylchedd llwyddiannus a chefnogol, ac o ganlyniad, mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn saff a'u bod yn cael gofal;
- mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda, gan sicrhau disgwyliadau cyson wrth reoli ymddygiad a disgwyliadau plant;
- mae profiadau dysgu yn ysgogol ac yn cymell plant i ddysgu; ac
- mae'r lleoliad yn rhoi cyfleoedd effeithiol i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- mae'r arweinydd a'r ymarferwyr eraill wedi ymrwymo i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu;
- mae gwaith tîm effeithiol a'r ethos cadarnhaol yn creu awyrgylch hapus ar gyfer dysgu;
- mae gan yr arweinydd a'r ymarferwyr ddarlun clir o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella; ac
- mae'r bartneriaeth gref rhwng y lleoliad a'r ysgol gynradd y mae'n ei bwydo yn cefnogi lles plant yn effeithiol.

Fodd bynnag:

- nid yw gweithdrefnau hunanarfarnu a gwella yn canolbwyntio'n ddigon da ar y cynnydd a wna plant; ac
- nid yw'r pwyllgor rheoli yn cynnal gwerthusiad staff ar gyfer yr arweinydd nac yn monitro'r lleoliad yn ddigon da.

## Argymhellion

A1 Gwella'r defnydd o asesu i lywio anghenion cynllunio yn y dyfodol yn gywir

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu plant

A3 Sicrhau bod gweithdrefnau hunanarfarnu a gwella yn fwy mesuradwy o ran eu heffaith ar ddeilliannau plant

A4 Sicrhau bod y pwyllgor rheoli yn monitro'r staff a chynnydd y lleoliad yn rheolaidd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Ddim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Ddim yn berthnasol**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, safonau o ran datblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg na lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Ddim yn berthnasol**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant a safonau mewn lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n dda gyda'i gilydd ac yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol a chymhellol, ar draws yr holl feysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Nid yw'r cynllunio ar gyfer defnyddio'r ardaloedd yn yr awyr agored wedi'i ddatblygu cystal, gan mai mynediad cyfyngedig sydd gan y lleoliad at faes chwarae a chae'r ysgol. Rhoddir pwyslais priodol ar chwarae a dysgu trwy brofiadau uniongyrchol. Er enghraifft, mae plant yn siarad am gregyn yn y tywod, ac yn eu defnyddio i greu traeth ar gyfer eu hanturiaethau ar gwch. O ganlyniad, mae plant yn mwynhau eu dysgu, ac yn awyddus i siarad am yr hyn y maent yn ei wneud.

Mae cynllunio yn rhoi cyfleoedd effeithiol i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, mae llawer o blant yn dysgu adnabod eu henwau yn ystod amser cylch ac amser cofrestru, ac mae defnyddio pypedau amser stori yn datblygu medrau siarad a gwrando plant yn dda. Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod addas o gemau i blant gyfateb, cyfrif ac ysgrifennu rhifau i ddeg ac adnabod ac enwi siapiau syml. Mae hyn yn cefnogi datblygiad medrau rhifedd plant yn dda. Caiff plant eu hannog i feddwl drostynt eu hunain ac mae ymarferwyr yn darparu ystod o gyfleoedd addas sy'n datblygu annibyniaeth plant yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant.

Mae'r lleoliad yn un cyfrwng Cymraeg. Mae bron pob un o'r plant yn siarad Cymraeg gartref. Mae pob un o'r ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg trwy gydol y sesiwn i atgyfnerthu a datblygu medrau Cymraeg plant yn effeithiol. Maent yn rhoi cyfleoedd priodol i blant ganu ystod o ganeuon a rhigymau a gwrando ar storïau byrion yn Gymraeg. Caiff plant gyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru trwy ddathlu dydd Calan Gaeaf a dydd Gŵyl Dewi.

## Addysgu: Da

Mae pob un o'r ymarferwyr yn frwdfrydig ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu trwy chwarae. Defnyddiant ystod addas o strategaethau addysgu sy'n annog ac yn ennyn diddordeb pob plentyn i ddysgu. Mae gan y lleoliad arferion sefydledig ac mae ymarferwyr yn gosod disgwyliadau clir, ac o ganlyniad, mae pob plentyn yn teimlo'n ddiogel, yn saff a'u bod yn cael gofal.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl iaith da. Gwnânt ddefnydd da o gwestiynau penagored i annog plant i feddwl drostynt eu hunain a dod o hyd i atebion i broblemau, er enghraifft "beth mae angen i chi ei wneud i fod yn ddiogel yn yr haul?" a "beth allech chi ei weld ar daith cwch?"

Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad medrau llythrennedd a mathemategol plant yn dda, ac yn darparu ystod addas o weithgareddau i ddatblygu'r medrau hyn, er enghraifft cyfrif a pharu cwpanau a soseri yn y man chwarae rôl ac argraffu gan ddefnyddio siapiau yn yr ardal greadigol. Maent yn ymyrryd yn briodol mewn sefyllfaoedd chwarae i symud dysgu'r plant ymlaen. Ceir cydbwysedd da rhwng dysgu sy'n cael ei ysgogi gan y plentyn a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion.

Mae'r lleoliad wedi cyflwyno gweithdrefnau asesu newydd yn ddiweddar. Mae'r rhain yn darparu cofnod rheolaidd a manwl o gyflawniadau plant. Mae ymarferwyr yn arsylwi plant yn anffurfiol bob dydd ac yn gwneud defnydd addas o'r arsylwadau hyn i lywio'r cofnodion asesu. Fodd bynnag, ni chaiff yr arsylwadau anffurfiol hyn eu cofnodi'n ddigon aml i fod yn effeithiol wrth gynllunio ar gyfer anghenion a galluoedd plant unigol. Caiff rhieni a gofalwyr 'lyfr trysor' pan fydd eu plentyn yn gadael y lleoliad, sy'n rhoi cofnodi defnyddiol iddynt mewn lluniau o gynnydd eu plentyn.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn dda. Mae'n darparu cyfleoedd addas i blant gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau datblygiad corfforol. Er enghraifft, mae sesiynau yn yr awyr agored yn annog plant i ddefnyddio teganau ag olwynion a thaflu a dal offer yn hyderus. Mae'r lleoliad yn rhoi cyfle i blant gymryd rhan mewn sesiynau ioga i ddatblygu eu medrau canolbwyntio a datblygiad corfforol.

Trwy drafodaethau, mae ymarferwyr yn annog plant yn effeithiol i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a gofalu am adnoddau. Caiff plant eu hannog i rannu a chymryd eu tro, er enghraifft wrth aros i ddefnyddio'r hambyrddau tywod lliw. O ganlyniad, mae pawb yn gweithio gyda'i gilydd yn dda.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod briodol o brofiadau dysgu, sy'n meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda. Er enghraifft, dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae plant yn dysgu am bwysigrwydd gofalu am y pethau byw yn eu hamgylchedd uniongyrchol trwy wneud offer bwydo adar. Mae plant yn dweud gweddi ar ddiwedd y sesiwn ac yn mynychu digwyddiadau'r ysgol i sicrhau eu datblygiad ysbrydol.

Mae'r lleoliad yn bodloni anghenion plant ag anghenion ychwanegol yn llwyddiannus. Ychydig iawn o blant yn y lleoliad sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ar hyn o bryd. Mae polisïau priodol ar waith ac mae ymarferwyr yn manteisio ar, ac yn gweithredu yn unol â'r cyngor gan ystod o asiantaethau allanol a gweithwyr proffesiynol i gynorthwyo'r plant hyn a'u teuluoedd yn dda.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae polisïau priodol ar waith i hyrwyddo diogelwch ac mae'r pwyllgor rheoli yn eu hadolygu bob blwyddyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae pob un o'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael yr un cyfle i fanteisio ar y cwricwlwm. Rhoddir pwyslais priodol ar ddathlu amrywiaeth. Mae'r adeilad a'r safle o fewn adeilad yr ysgol, ac maent yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn dda. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r gofod a rennir sydd ar gael. Maent yn gosod ac yn clirio gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored bob dydd. Fodd bynnag, mae ymarferwyr yn llwyddo i greu amgylchedd golau a difyr ar gyfer dysgu. Mae ystod o arddangosfeydd deniadol yn dathlu gwaith a chyflawniadau plant yn dda, yn adlewyrchu gweithgareddau dysgu diweddar ac yn helpu i greu amgylchedd croesawgar. Mae'r lleoliad yn gwneud defnyddiol dyddiol priodol o'r ardal yn yr awyr agored i gefnogi datblygiad medrau mathemategol plant ac wrth ddysgu am y byd o'u cwmpas, er enghraifft cyfrif a thaflu cylchynau mewn cylchoedd lliw ar y maes chwarae a gwylio'r tymhorau'n newid yn y caeau sy'n amgylchynu'r ysgol. Mae ansawdd adnoddau dysgu'n dda ac ar gael yn hawdd i'r plant yn ystod y sesiwn, ac yn bodloni eu hanghenion yn effeithiol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweinydd y cylch chwarae yn frwdfrydig ac yn gwbl ymrwymedig i gyflawni ei rôl yn dda. Mae'n gweithio'n effeithiol gyda'r ymarferwyr eraill i sicrhau'r ddarpariaeth orau i'r plant. Mae perthnasoedd gyda phlant, rhieni a gofalwyr a'r ysgol gynradd sy'n cael ei bwydo gan y cylch meithrin yn gryf iawn ac yn cyfrannu'n sylweddol at ymdeimlad o gymuned. Mae'r pwyllgor rheoli yn cael anawsterau yn ymgymryd â'u rôl yn llawn ar hyn o bryd, sy'n effeithio ar y ffordd y maent yn rheoli'r lleoliad. Ar hyn o bryd, ni all aelodau o'r gymuned ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd ar hyn o bryd i fonitro cynnydd y lleoliad. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddigon o wybodaeth uniongyrchol am y lleoliad. Mae'r arweinydd, gyda chymorth gan yr ymarferwyr eraill ac athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol, yn monitro cynnydd y lleoliad a'r meysydd i'w datblygu yn briodol, ac yn darparu gwybodaeth addas i'r pwyllgor rheoli.

Mae prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad staff. Mae'r arweinydd wedi dechrau rheoli perfformiad yr ymarferwyr eraill yn ddiweddar, ac mae gan ymarferwyr dargedau addas, yn seiliedig ar eu rolau yn y lleoliad. Fodd bynnag, oherwydd yr anawsterau a gaiff y pwyllgor rheoli, nid yw perfformiad yr arweinydd wedi cael ei adolygu eleni eto. Mae gan bob ymarferwr ddealltwriaeth briodol o'u rolau a'u

cyfrifoldebau. Maent yn awyddus i ddatblygu eu harfer, yn gweithio'n agos gyda'r athrawon ymgynghorol ac yn mynychu ystod eang o hyfforddiant priodol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant.

Mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd da wrth fwrw ymlaen â mentrau cenedlaethol, er enghraifft wrth ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd, ac mae wedi rhoi athroniaeth y Cyfnod Sylfaen ar waith yn llwyddiannus. Mae'n cymryd rhan weithredol ym Menter Cyn-Ysgol Iach yr awdurdod lleol, sydd wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer annog ffyrdd iach o fyw plant.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae pob un o'r ymarferwyr yn dangos ymrwymiad amlwg i wella ansawdd. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac mae ganddynt ffocws clir ar sicrhau bod profiadau dysgu'n ddiddorol a chymhellol i blant, a bod plant yn hapus ac yn barod i ddysgu.

Mae'r arweinydd ac ymarferwyr eraill yn adnabod y lleoliad yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Gwnânt ddefnydd priodol o broses hunanarfarnu flynyddol a gallant nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae targedau ar gyfer gwella yn cysylltu'n agos â hunanarfarnu, er nad yw targedau ar gyfer datblygu bob amser yn ddigon penodol i ddisgrifio'n glir y camau sydd eu hangen a'r deilliannau y maent yn eu disgwyl. Mae'r arfer o ran cofnodi cynnydd a deilliannau monitro yn anghyson hefyd. Er bod cynllunio ar gyfer gwella yn briodol ar y cyfan, nid yw bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar y modd y mae unrhyw gamau a gymerir yn fesuradwy o ran gwella deilliannau plant.

Mae ymarferwyr yn dangos ymrwymiad cryf i hunanwella. Maent yn mynychu digwyddiadau hyfforddi, yn agored i syniadau newydd ac wedi ymateb yn gadarnhaol i gymorth gan staff ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin.

Mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd priodol wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad bartneriaeth gref gyda rhieni. Mae rhieni'n gwerthfawrogi ansawdd y profiadau dysgu a ddarperir a lefel y gofal a'r pryder y mae'r ymarferwyr yn eu dangos i'w plant. Mae ymarferwyr yn rhoi ystod eang o wybodaeth i rieni trwy hysbysfwrdd y lleoliad, cyswllt personol dyddiol, llythyrau a llyfryn gwybodaeth cynhwysfawr. Mae'r lleoliad yn gofyn am farn rhieni ac yn gwneud defnydd priodol o adborth.

Mae'r bartneriaeth rhwng y lleoliad a'r ysgol gynradd y mae'n ei bwydo, sydd yn yr un adeilad, yn hynod effeithiol ac yn cefnogi'r pontio o'r lleoliad i'r ysgol yn dda iawn. Er enghraifft, mae plant o'r lleoliad yn ymweld â'r ysgol i rannu eu gwaith, maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac mae'r staff o'r ysgol yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn paratoi plant yn dda iawn ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Gan ei fod mewn ardal wledig iawn, cyfyngedig yw'r cyfleoedd a gaiff y lleoliad i ymwneud â'r gymuned y tu hwnt i'r ysgol gynradd leol. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r ardal gyfagos i ddysgu am y byd o'u cwmpas trwy gydol y newid yn y tymhorau. Mae pobl sy'n ymweld â'r lleoliad yn cynnwys athrawes ioga sy'n helpu datblygiad corfforol y plant.

Mae gan y lleoliad drefniadau partneriaeth cadarn gyda'r awdurdod lleol a Mudiad Meithrin, ac mae'r plant yn elwa'n dda ar y rhain.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan y lleoliad ddigon o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac mae'n eu defnyddio'n effeithiol.

Mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwerthuso staff a'u datblygiad proffesiynol. Mae cysylltiadau gydag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu manteisio ar ystod effeithiol o hyfforddiant. Mae ymarferwyr yn rhannu syniadau'n dda ac yn gwneud defnydd priodol o hyfforddiant i ddatblygu a gwella'u harfer a gwella darpariaeth i blant.

Mae gan reolwyr systemau addas ar gyfer adolygu gwariant yn gyson. Maent yn gweddu gwariant i flaenoriaethau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu yn briodol. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o ffynonellau cyllid, i ddarparu adnoddau o ansawdd da ar gyfer y lleoliad, er enghraifft defnyddio cyllid grant i ddarparu teganau ag olwynion i ddatblygu medrau corfforol plant.

Mae'r lleoliad yn llwyddiannus wrth hyrwyddo gweithgareddau sy'n annog plant i ddysgu a gwneud cynnydd priodol; fodd bynnag, mae rôl y pwyllgor rheoli presennol yn gyfyngedig o ran monitro ac arfarnu effeithiolrwydd y lleoliad. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Daeth llai na 10 o ymatebion i law.  Ni fydd unrhyw ddata yn cael ei ddangos.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mrs Janet Elizabeth Rowlands | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |